Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Adnoddau Dŵr
# TRWYDDED I
## GRONNI
# DŴR

Deddf Dŵr 2003
Deddf yr Amgylchedd 1995
Deddf Adnoddau Dŵr 1991 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2003
Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Tynnu Dŵr a'i Gronni) 2006
Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2012

# NODIADAU PWYSIG

## Cadw dogfennau'n ddiogel

Mae'r drwydded yma'n ddogfen bwysig. Efallai bydd yr hawl neu'r caniatâd i dynnu dŵr yn werthfawr ar y tir rydych yn ei ddal. Felly,

- Cadwch y drwydded mewn lle diogel, a hynny mae'n debyg gyda'ch gweithredoedd ac ati.
- Rhowch sylw manwl i'r sylwadau sy'n dilyn ynglŷn â 'throsglwyddo a rhannu'r drwydded' a 'marwolaeth a mynd yn fethdalwr'.

Pwrpas gwneud hyn yw sicrhau bod yr hawliau a'r caniatâd sy'n perthyn i'r drwydded yn parhau os byddwch yn awyddus i'w throsglwyddo i rywun arall.

Os byddwch yn awyddus i:

- ddiddymu (canslo) y drwydded;
- amrywio (newid/diwygio) y drwydded mewn unrhyw ffordd;
- neu newid eich cyfeiriad cyswllt (ond parhau fel deiliad y drwydded);

ysgrifennwch atom yn swyddfa Cyfoeth Naturiol Cymru yn eich ardal.

Bydd manylion y drwydded yma'n mynd ar gofrestr mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei chadw. Mae'r cyhoedd yn rhydd i weld y gofrestr. Oni bai fod amgylchiadau arbennig yn atal hynny gall y cyhoedd ofyn hefyd am fwy o fanylion am y drwydded dan Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (cyfeiriwch hefyd at yr adran 'Datgelu gwybodaeth'). Cysylltwch â'r cyfeiriad sydd ar dudalen flaen y drwydded i ofyn am gyngor ar hyn.

## Trosglwyddo a rhannu'r drwydded

Os bydd angen trosglwyddo'r drwydded gyfan neu ran ohoni i rywun arall, rhaid i chi gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru i ofyn am y ffurflenni cais cywir. Nid yw'n bosibl trosglwyddo neu rannu trwyddedau dros dro. Deiliad y drwydded sy'n dal yn gyfrifol am gydymffurfio â theleraü'r drwydded ac am dalu'r costau sydd i'w talu, tan yr adeg y bydd y drwydded wedi cael ei throsglwyddo neu ei rhannu.

## Os bydd deiliad trwydded yn marw neu'n mynd yn fethdalwr

Os bydd trwydded wedi cael ei 'breinio' i chi ar ôl marwolaeth deiliad y drwydded neu ar ôl iddo fynd yn fethdalwr (bankrupt), ysgrifennwch at Cyfoeth Naturiol Cymru. Dywedwch wrthym beth yw rhif y drwydded a'r dyddiad y cafodd ei breinio i chi fel cynrychiolydd personol deiliad y drwydded, neu fel un o'i ymddiriedolwyr. Heb wneud hyn, ni fyddwch yn gallu trosglwyddo'r drwydded yn nes ymlaen.

Proses o drosglwyddo perchnogaeth trwydded yw 'breinio', a throsglwyddo'r cyfrifoldeb drosti. Mae'n digwydd pan na fydd deiliad presennol y drwydded yn gallu parhau i'w chadw, naill ai am ei fod wedi marw neu am ei fod wedi mynd yn fethdalwr.

Nid oes rhaid i chi lenwi ffurflen, ond rhaid i chi ysgrifennu atom i roi gwybod i ni cyn pen 15 mis o ddyddiad cyntaf y broses freinio. Rhowch enwau llawn yr holl gynrychiolwyr a'r ymddiriedolwyr, a chyfeiriad cyswllt.

## Terfynau amser

Efallai fod terfyn amser ar eich trwydded (os oes un bydd wedi'i nodi ar flaen eich trwydded). Mae gosod terfyn amser yn un o'r amodau cyfreithiol wrth roi trwyddedau newydd i dynnu dŵr. Os bydd rhywun yn gwneud cais i amrywio trwydded, byddwn yn dilyn ein polisi wrth ychwanegu'r terfyn amser.

Ein polisi ar gyfyngu amser sy'n rheoli'r broses o bennu'r terfyn amser. Bydd y terfyn wedi'i gysylltu â'r adolygiad nesaf neu ddilynol o'r adnoddau dŵr dan Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr mewn Dalgylch (strategaeth CAMS).

Ar yr amod bod y drwydded yn bodloni tri phrawf, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn tueddu at fod yn barod i adnewyddu'r drwydded. Y tri phrawf mae gofyn eu bodloni yw: nad oes lle i amau diffyg cynaliadwyedd amgylcheddol; ei bod hi'n dal yn bosibl cyfiawnhau'r angen dros roi trwydded; a bod y dŵr yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon. Bydd yr ystyriaethau statudol arferol yn dal yn berthnasol i unrhyw gais am adnewyddu trwydded.

Os oes terfyn amser ar eich trwydded ac rydych yn awyddus i'w hadnewyddu pan ddaw i ben, bydd angen gwneud cais am drwydded newydd i gymryd lle'r un bresennol. Rydym yn cynghori y dylech anfon eich cais tri mis o leiaf cyn y dyddiad y bydd y drwydded bresennol yn dod i ben. Er mwyn tynnu'ch sylw at hyn yn ddigon buan, byddwn yn eich atgoffa am y drefn tua 18 mis cyn dyddiad olaf y drwydded bresennol.

Os nad yw'n bosibl adnewyddu eich trwydded, byddwn yn gwneud ein gorau i roi chwe blynedd o rybudd o leiaf i chi. Byddwn hefyd yn ceisio rhoi chwe blynedd o leiaf o rybudd os yw'n debygol y bydd y drwydded yn cael ei hadnewyddu dan delerau gwahanol a fydd yn effeithio'n fawr ar ei defnydd.

Efallai na fydd yn bosibl dan amgylchiadau eithriadol i roi chwe blynedd o rybudd. Ymhlith y fath amgylchiadau fydd dyletswyddau statudol eraill fel y Rheoliadau Cynefinoedd, er enghraifft.

## Costau

Oni bai fod costau wedi cael eu heithrio'n benodol, efallai byddwn yn codi COST flynyddol am y dŵr mae'r drwydded yma'n rhoi HAWL i chi ei dynnu.
Byddwn yn gwneud hyn yn unol â'n cynllun codi costau am dynnu dŵr sydd mewn grym ar y pryd.

## Os na fydd y costau'n cael eu talu, efallai byddwn yn diddymu'r drwydded.

## Swm ac ansawdd y dŵr

Rhaid i chi beidio â thynnu mwy o ddŵr na'r swm sydd wedi'i bennu yn y drwydded.

Drwy roi trwydded i chi, nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi unrhyw fath o sicrwydd y bydd y ffynhonnell o ddŵr yn rhoi'r holl ddŵr mae'r drwydded yma'n rhoi hawl i chi ei dynnu. Nid yw'n rhoi sicrwydd chwaith y bydd y dŵr yn ffit i'w ddefnyddio yn y ffordd rydych yn bwriadu ei ddefnyddio.

Bydd y swm o ddŵr bydd gennych hawl i'w dynnu wedi'i nodi mewn metrau ciwbig. Mae un metr ciwbig yn gyfartal â thua 220 o alwyni.

(Yr union ffigwr ar gyfer trawsnewid yw 1 metr ciwbig = 219.969 o alwyni.)

## Ffynhonnell y cyflenwad a'r man lle mae hawl gennych i dynnu dŵr

Gallwch dynnu dŵr o'r man (neu'r mannau) sydd wedi'u nodi yn y drwydded. Nid oes hawl gennych i dynnu dŵr o unrhyw fan arall. Os byddwch yn awyddus i gael hawl i dynnu dŵr o fan ychwanegol neu o fan arall, rhaid i chi ofyn i ni am hawl i amrywio'r drwydded.

## Y tir lle mae hawl gennych i ddefnyddio dŵr

Os yw'r amod yma'n berthnasol i'ch trwydded chi, dim ond ar y tir sydd wedi'i enwi'n benodol yn eich trwydded y gallwch chi ddefnyddio'r dŵr. Os byddwch yn awyddus i ymestyn neu i newid yr ardal, neu i dynnu'r ardal o'ch trwydded, rhaid i chi ofyn i ni am hawl i amrywio'r drwydded.

## Pwrpas y dŵr rydych wedi cael hawl i'w ddefnyddio

Dim ond i'r pwrpas (neu'r pwrpasau) sydd wedi'u nodi yn y drwydded y gallwch ddefnyddio'r dŵr. Os byddwch yn awyddus i ddefnyddio'r dŵr i bwrpas newydd neu i bwrpas gwahanol, rhaid i chi ofyn i ni am hawl i amrywio'r drwydded.

## Troseddau

Dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991, mae'r canlynol yn droseddau:

- tynnu dŵr, neu ganiatáu i rywun arall dynnu dŵr, os nad yw'r gwaith tynnu wedi cael ei awdurdodi yn ôl telerau trwydded neu ei fod yn destun eithriad;
- gwneud unrhyw beth i hwyluso gwaith tynnu dŵr, neu i gynyddu'r swm o ddŵr mae rhywun yn ei dynnu, heb wneud hynny yn ôl telerau trwydded tynnu dŵr neu eithriad;
- methu â chydymffurfio ag amodau trwydded i dynnu dŵr. Nodwch yn benodol y gallai fod yn un o amodau eich trwydded i gadw'r mesurydd neu ddyfais fesur arall mewn cyflwr da. Bydd methu â gwneud hyn yn drosedd;
- ymyrryd ag unrhyw fesurydd neu ddyfais fesur arall sy'n mesur faint o ddŵr rydych yn ei dynnu mewn ffordd sy'n ei rwystro rhag mesur y dŵr yn gywir;
- methu â rhoi gwybodaeth rydym wedi gofyn yn rhesymol amdani i helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni unrhyw rai o'i dyletswyddau o safbwynt adnoddau dŵr;
- mynd ati'n fwriadol i wneud datganiadau sy'n anwiredd er mwyn cael trwydded neu ganiatâd neu wrth roi'r wybodaeth rydym wedi gofyn amdani.

Mae'r gofynion wrth wneud cais am drwydded yn destun rhai eithriadau. Mae'r rhain wedi'u rhestru yn y diwygiadau i Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991. Os ydych yn ansicr o gwbl a oes angen trwydded arnoch, cysylltwch â ni yn y cyfeiriad sydd i'w gweld ar waelod tudalen flaen y drwydded.

## Hawl i apelio

Os ydych yn anfodlon ar ein penderfyniad ar eich cais am drwydded, gallwch apelio.

Os ydych yng Nghymru, dylech ysgrifennu at Lywodraeth Cymru dan ofal yr Arolygiaeth Gynllunio yn:
Adeiladau'r Goron,
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3NQ.

Os ydych yn Lloegr, dylech ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, dan ofal yr Arolygiaeth Gynllunio yn:
Room 4/19 Eagle Wing,
Temple Quay House,
2 The Sqare,
Temple Quay,
Bristol,
BS1 6PN.

Rhaid i chi anfon rhybudd yn nodi eich bod yn bwriadu apelio. Rhaid i chi wneud hynny cyn pen 28 diwrnod i'r dyddiad y cawsoch y drwydded yma (er bod Llywodraeth Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol yn gallu caniatáu cyfnod hirach i rywun anfon y rhybudd). Cyfeiriwch at Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991, adran 43.

## Datgelu gwybodaeth

Bydd gwybodaeth am y drwydded yma ar gael ar y Gofrestr gyhoeddus mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei chadw. Mae hawl gan y cyhoedd i ofyn i ni am y 'wybodaeth amgylcheddol' arall mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei chadw, gan gynnwys gwybodaeth am unrhyw weithgareddau sy'n debygol o effeithio ar 'gyflwr unrhyw ddŵr' neu am unrhyw 'weithgareddau neu gamau gweithredu sydd â'r bwriad o'i ddiogelu'. Byddai hynny'n cynnwys y wybodaeth sy'n ychwanegol at y drwydded ei hun, er enghraifft, unrhyw gytundeb sy'n gysylltiedig â hi. Dan rai amgylchiadau prin mae'n bosibl hawlio y dylai gwybodaeth gael ei chadw'n gyfrinachol. Os byddwch yn awyddus i gael mwy o wybodaeth am gadw gwybodaeth oddi ar y gofrestr gyhoeddus am ei bod yn gyfrinachol, ysgrifennwch atom gan ddefnyddio'r cyfeiriad sydd ar waelod tudalen flaen y drwydded. Gwnewch hynny cyn pen 28 diwrnod i'r dyddiad y cawsoch y drwydded yma.

| Rhif cyfresol y drwydded | WA/065/0002/0002 |
|---|---|

Dyfynnwch y rhif cyfresol yn yr holl ohebiaeth ynglŷn â'r drwydded hon

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# TRWYDDED I GRONNI DŴR

Mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru (y cyfeirir ato fel "CNC" wedi hyn) yn rhoi'r drwydded hon i:-

Gwilym Huw James ac Ann Wynn James ("Deiliad y Drwydded")
Arlyn
Trawsfynydd
Blaenau Ffestiniog
LL41 4DU

Mae'r drwydded hon yn awdurdodi Deiliad y Drwydded i rwystro neu atal llif y dŵr mewndirol a ddisgrifir yn yr Atodlen Amodau (i'r graddau ac yn ôl y dull a awdurdodwyd gan yr amodau hynny) i'r drwydded hon ac yn unol â darpariaethau'r Atodlen honno.

Mae'r drwydded hon yn dechrau o'r dyddiad y daw i rym a ddangosir isod a bydd yn parhau i fod mewn grym tan y caiff ei dirymu, yn unol ag Amod 4.6.

Llofnodwyd:

Ashley Lansdown
Arweinydd y Tîm Trwyddedu
Y Gwasanaeth Trwyddedu
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

Dyddiad cyhoeddi……………………30/10/2018

Dyddiad y daw i rym………………….............30/10/2018

Dylid cadw'r drwydded hon yn ddiogel a dylid datgelu ei bodolaeth wrth werthu unrhyw eiddo a'r gwaith cronni y mae'n ymwneud ag ef.

Noder: Mae cyfeiriadau at "y map" yn cyfeirio at y map sy'n ffurfio rhan o'r drwydded hon.
Mae cyfeiriadau at "CNC" yn cyfeirio at Gorff Adnoddau Naturiol Cymru neu unrhyw gorff olynol.

Deddf yr Amgylchedd 1995
Deddf Adnoddau Dŵr 1991 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2003
Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Tynnu Dŵr a'i Gronni) 2006
Erthygl 3 Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012
Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013

# ATODLEN AMODAU

## 1. ENW'R DŴR MEWNDIROL I'W GRONNI

1.1 Dŵr mewndirol (nant) a adwaenir fel Nant Bod y Fuddau ym Modyfuddau ger Trawsfynydd, Blaenau Ffestiniog.

## 2. PWYNT CRONNI DŴR

2.1 Ar y Cyfeirnod Grid Cenedlaethol SH 73268 34638 a farciwyd fel 'Pwynt A' ar y map.

## 3. DULL A GRADDAU'R CRONNI

3.1 Gwaith mewnlif sy'n cynnwys cored goncrid newydd ag estyll atal, sgrin mewnlif dyllog o ddur gwrthstaen â bylchau nad ydynt yn fwy na 3 milimetr, tanc mewnlif, tyrbin a gweithiau sifil cysylltiedig ategol, yn unol â'r manylebau a'r darluniadau canlynol:

‘Dimensiynau a Threfniant Cyffredinol Nant Bod y Fuddau V4’
‘Dimensiynau Llwybr Pysgod Ramp Creigiog V4.0’,

a dderbyniwyd ar 15 Hydref 2018 ac mae copïau ohonynt wedi'u hategu at y drwydded hon, neu’r fath fân newidiadau i'r dogfennau hynny a dderbynnir yn ysgrifenedig gan CNC cyn dyddiad dechrau'r gwaith adeiladu.

## 4. AMODAU PELLACH

4.1 At ddibenion y drwydded hon, bydd cyfeiriadau at 'weithiau mewnlif' yn golygu'r holl weithiau hynny sy'n cynnwys cored goncrid newydd ag estyll atal, sgrin mewnlif dyllog o ddur gwrthstaen â bylchau nad ydynt yn fwy na 3 milimetr, tanc mewnlif, tyrbin a gweithiau sifil cysylltiedig ategol.

4.2 Bydd Deiliad y Drwydded yn sicrhau, yn ystod y gwaith adeiladu ac unrhyw waith cynnal a chadw dilynol ar y gweithiau mewnlif, a phan nad yw gwaith tynnu dŵr at ddiben cynhyrchu pŵer yn digwydd, fod llif y dŵr yn Nant Bod y Fuddau yn gallu parhau i lawr y nant ar bob adeg heb newid maint ac ansawdd y dŵr.

4.3 Cyn i'r gwaith a awdurdodwyd gan y drwydded hon ddechrau, bydd Deiliad y Drwydded yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i CNC o 28 diwrnod calendr o'i fwriad i ddechrau ar y gwaith awdurdodedig.

4.4 Bydd Deiliad y Drwydded yn cadarnhau yn ysgrifenedig i CNC fod y gwaith mewnlif wedi'i adeiladu yn unol â'r manylebau a'r darluniadau a gyflwynwyd y cyfeirir atynt yn Amod 3.1 y drwydded hon 28 diwrnod calendr cyn i'r cynllun gael ei gomisiynu neu y daw'n weithredol.

4.5 Bydd Deiliad y Drwydded yn adeiladu, gweithredu a chynnal y gwaith mewnlif yn unol â'r manylebau a'r darluniadau y cyfeirir atynt yn Amod 3.1 y drwydded hon, gan sicrhau bob amser nad oes unrhyw ollyngiadau na rhwystrau.

4.6 Ni fydd y drwydded hon yn parhau mewn grym os nad yw'r gwaith mewnlif y mae'n ei awdurdodi wedi dechrau o fewn tair blynedd i ddyddiad cyhoeddi'r drwydded.

4.7 Ni chaiff y gwaith mewnlif a awdurdodwyd gan y drwydded hon ei wneud yn y cwrs dŵr rhwng 17 Hydref a 15 Mai mewn unrhyw flwyddyn.

4.8 Cyn cwblhau'r gwaith a awdurdodwyd gan y drwydded hon, bydd Deiliad y Drwydded yn adeiladu plymbwll, â dyfnder isaf o 300 milimetr, yn union i lawr y nant o'r gwaith mewnlif a nodir yn Amod 3.1, er mwyn sicrhau taith ddiogel i lawr y nant i bysgod.

# GWYBODAETH YCHWANEGOL

Noder: darperir y wybodaeth ganlynol er gwybodaeth yn unig. Nid yw'n ffurfio rhan o'r drwydded.

**Y RHESYMAU DROS YR AMODAU**

Amodau 4.1, 4.3, 4.4 a 4.5: sicrhau bod y gweithiau mewnlif yn cael eu hadeiladu, eu gweithredu a'u cynnal a chadw yn unol â'r darluniadau a'r manylebau y cytunwyd arnynt gan CNC yn ystod y cyfnod penderfynu ar y drwydded hon.

Amodau 4.2 a 4.5: sicrhau bod llif yn cael ei gynnal yn y cwrs dŵr er mwyn cynnal cynefin yr afon er mwyn gwarchod fflora a ffawna'r cwrs dŵr.

Amod 4.3: dechrau proses cydymffurfiaeth CNC.

Amod 4.6: diogelu'r defnydd cywir o adnoddau dŵr ac osgoi ymrwymo adnoddau dŵr i hawl i dynnu dŵr na ellir ei harfer.

Amod 4.7: osgoi niwed i bysgod yn ystod cyfnodau bywyd bregus megis silio, mudo, ymddangosiad ac aeddfedu cynnar.

Amod 4.8: osgoi niweidio pysgod sy'n mudo i lawr y nant.


**NODIADAU PWYSIG**

Mae'r drwydded cronni dŵr hon yn hwyluso tynnu dŵr ar gyfer cynllun ynni dŵr a awdurdodwyd o dan y rhif cyfresol trwydded WA/065/0002/0001.

At ddibenion Amodau 3.1, 4.3 a 4.4, bydd Deiliad y Drwydded yn cysylltu â:

Cynllunio Adnoddau Naturiol y Gogledd a'r Canolbarth
Cyfoeth Naturiol Cymru
Maes y Ffynnon
Penrhosgarnedd
Bangor
Gwynedd
LL57 2DW

Ffôn: 0300 065 3000
E-bost: nrp.northmid@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk




0.5 | 0 | Distance / 2 | 0.5 Kilo mete rs

British National Grid

**MAP ACCOMPANYING LICENCE NUMBER / MAP SY'N CYD-FYND Â THRWYDDED RHIF**


WA/065/0002/0002

Scale l Graddfa 1:10,000

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

© Crown Copyright and database rights Ordnance Survey.Natural Resources Wales, 100019741,2015. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans. Cyfoeth Naturiol Cymru, 100019741, 2015.

N




Nant Bod y Fuddau
Dimensions and General
Arrangement V4

Stop logs with rectangular
notch for hands-off-Flow
(186mm x 66mm)
Q=Cd*w*h^1.5
=1.6*0.186*0.066^1.5 =5l/s


Concrete edges including
HOF notch to be chamfered
downstream.

Stainless steel intake box
with 3mm perforated screen

Weir to be constructed from
reinforced concrete with
baseslab under intake box

# Rocky Ramp Fish Pass Dimensions V4.0


Nant Bod y Fuddau




NOTES:
Fish Pass to be created from stone which will be set into mass fill concrete resulting in a firm structure.

The rocky ramp pass will resemble natural rapids with each step providing a fall of 150mm

Concrete edges including HOF notch to be chamfered downstream.



**Hoffech chi ddysgu mwy amdanom ni neu am eich amgylchedd?**

**Yna ffoniwch ni ar**
**0300 065 3000** (Llun-Gwener rhwng 9 a 5)

**e-bost**
**enquiries@naturalresourceswales.gov.uk**

**neu ewch i'n gwefan**
**[www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](http://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)**

**llinell gymorth digwyddiadau**
**0300 065 3000** (24 awr)

**Llinell rhybuddion llifogydd**
**0345 988 1188**

**Yr Amgylchedd yn gyntaf: Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i argraffu ar bapur a wnaed o 100 y cant o wastraff a ddefnyddiwyd yn flaenorol. Defnyddir sgil-gynhyrchion rhag gwneud y mwydion a'r papur ar gyfer compostio a gwrtaith, ar gyfer gwneud sment ac am gynhyrchu ynni.**

Environment first: This publication is printed on paper made from 100 per cent previously used waste. By-products from making the pulp and paper are used for composting and fertiliser, for making cement and for generating energy.